COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD YN REMOTELY VIA SKYPE FOR BUSINESS DYDD MAWRTH, 6 HYDREF 2020, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| PA Davies | JE Lewis | RM James | RJ Collins |
| G Thomas | AA Pucella | JE Williams | MJ Kearn |
| A Hussain | | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |

47. DATGAN BUDDIANT

Dim.

48. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo bod cofnodion y cyfarfodydd dyddiedig 25/02/2020 a 14/07/2020 yn gywir.

49. PENODI IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU A DIRPRWYO I SWYDDOGION

Cyflwynodd y Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio adroddiad, er mwyn cynnig aelodaeth Is-bwyllgorau'r Pwyllgor Trwyddedu yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 30 Medi 2020.

Dywedodd y Rheolwr Tîm - Trwyddedu y cynigir bod y Pwyllgor Trwyddedu yn parhau â'r trefniadau presennol ac yn cymeradwyo ffurfio dau banel a fydd yn cyfarfod ar sail rota, pob un yn cynnwys saith Aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu ac yn cael eu cadeirio gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu lle bo hynny'n bosibl.

Os na fydd y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn gallu mynychu eu cyfarfod is-bwyllgor priodol, etholir cadeirydd o'r rhai sy'n bresennol.

Yn dilyn trafodaethau rhwng Aelodau a Swyddogion ar yr adroddiad,

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo ffurfio dau banel a fydd yn cyfarfod ar sail rota, pob un yn cynnwys saith Aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu ac yn cael eu cadeirio gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu lle bo hynny'n bosibl.

Byddai'r Is-bwyllgorau Trwyddedu yn cyflawni swyddogaethau trwyddedu, gan gynnwys trwyddedu tacsis a masnachu ar y stryd fel y nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

50. MATERION BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 09:50